***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3258 (Cy.285)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed Tachwedd - -* | *8 Rhagfyr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Chwefror 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 22(1), 22(2)(c), 22(2)(d), 22(5)(a) ac 118A o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002(3)

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 fel a ganlyn:—

(2) Ar ôl rheoliad 24(1) mewnosoder rheoliad 24(1A) newydd fel a ganlyn:—

**24(1A.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau–

(a) nad yw ysbyty annibynnol sy'n darparu triniaeth a nyrsio i gleifion ag anabledd dysgu, y rhagwelir y bydd eu triniaeth a nyrsio yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod o 12 mis, ac y darperir llety dros nos iddynt yn y sefydliad hwnnw, yn fwy na 10 o welyau, ac os yw'n rhesymol ymarferol, fe'u darperir mewn dwy neu fwy o unedau.

(b) nad yw ysbyty annibynnol sy'n darparu triniaeth a nyrsio i gleifion ag afiechyd meddwl (gan gynnwys y rheiny mewn llety diogel o lefel isel neu ganolig) ac hefyd i gleifion ag anabledd dysgu, y rhagwelir y bydd eu triniaeth a nyrsio yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod

(**1**) 2000 p.14
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) **2002/325 (Cy.35).**

o 12 mis, ac y darperir llety dros nos iddynt yn fwy na 15 o welyau, ac os yw'n rhesymol ymarferol, fe'u darperir mewn dwy neu fwy o unedau.

(c) na fydd ysbyty annibynnol arall wedi ei leoli yn agos iawn at ysbyty annibynnol o'r math ag a grybwyllir yn is-baragraffau (a) neu (b) yn y fath fodd ag y gellid ei ystyried yn luosogiad o'r ysbyty annibynnol, ac y byddai felly yn effeithio ar resymeg a bwriad y cyfyngiadau ar y nifer o gleifion mewn ysbytai annibynnol yn ôl darpariaeth y rheoliad hwn.

**Darpariaethau Trosiannol**

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob cais newydd gan ysbytai annibynnol i gofrestru ysbyty annibynnol, neu i amrywio cofrestriad ysbyty annibynnol gyda Gweinidogion Cymru sy'n cael ei wneud ar 1 Chwefror 2010 neu wedi hynny.

(2) Ni fydd angen i geisiadau a wneir cyn 1 Chwefror 2010, y gall Gweinidogion Cymru yn rhesymol benderfynu arnynt erbyn 1 Mai 2010, fodloni gofynion y rheoliadau hyn.

(3) Bydd yn rhaid i unrhyw geisiadau a wneir cyn 1 Chwefror 2010 na all Gweinidogion Cymru yn rhesymol benderfynu arnynt erbyn 1 Mai 2010 fodloni gofynion y Rheoliadau hyn.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Rhagfyr 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 24 (Ffitrwydd y safleoedd) o Reoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 drwy fewnosod rheoliad 24 (1A) newydd.

Diwygir y Rheoliadau er mwyn gosod terfyn ar y nifer o welyau y caiff ysbyty annibynnol eu darparu pan fo triniaeth a nyrsio tymor hir yn cael eu darparu i bersonau gydag anabledd dysgu, yn ogystal â rhai sydd ag afiechyd meddwl.

Mae hefyd yn ofynnol nad oes unrhyw ysbyty annibynnol arall wedi ei leoli yn agos iawn i ysbyty annibynnol arall yn y fath fodd ag y gellid ei ystyried yn luosogiad o'r ysbyty annibynnol gwreiddiol, ac y byddai felly yn effeithio ar y rhesymeg a'r bwriad o gyfyngu ar y nifer o gleifion mewn ysbytai annibynnol yn ôl darpariaeth y rheoliadau hyn.

Bydd darpariaethau trosiannol yn gymwys ar gyfer dyfodiad y Rheoliadau hyn i rym.